**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 19 Tachwedd 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | C E Lloyd | A Pugh |
| J A Raynor | A H Stevens | M Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard, M H Jones

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

### 16. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R Francis-Davies gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 22 “Cefnogaeth Ariannol Pwll Cenedlaethol Cymru” Financial Support” a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

2) Datganodd y Cynghorydd A S Lewis gysylltiad personol â chofnod 23 “Datganiad Argyfwng Hinsawdd – Adolygiad Polisi a’r Cynllun Gweithredu Arfathedig”.

3) Datganodd y Cynghorydd A S Lewis gysylltiad personol â chofnod 24 “Strategaeth Ynni 2020-2030”.

4) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 28 “Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol” a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

5) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 28 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

**17. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2020.

**18. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**19. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**20. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnodd y Cynghorydd M H Jones nifer o gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 21 “Adroddiad Ailgynllunio Rhaglen Oracle”.

Ymatebodd yr Aelod (au) Cabinet perthnasol.

**21. Adroddiad ailgynllunio Rhaglen Oracle.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Trawsnewid Ynni a Gwasanaethau adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf ar statws cyfredol rhoi Oracle Cloud ar waith oherwydd effaith COVID-19, gan wneud argymhellion i oedi’r rhaglen, gan gynnwys ailgynllunio a chostau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo oedi’r rhaglen, dychwelyd yn raddol ati a’i hailgynllunio ynghyd â'r cynnydd ariannol angenrheidiol er mwyn rhoi'r system gorfforaethol hon ar waith yn llwyddiannus.

**22. Cefnogaeth Ariannol Pwll Cenedlaethol Cymru.**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am gostau cau Pwll Cenedlaethol Cymru, costau gweithredu ychwanegol a llai o incwm oherwydd COVID-19 a hysbysodd am lefelau'r cymorth ariannol sydd ei angen ar Wales National Pool Ltd i fis Gorffennaf 2020 ac o fis Awst 2020 i 31 Mawrth 2021.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Rhoi cymeradwyaeth i'r costau gwarantu ychwanegol o £350,000 i gefnogi Pwll Cenedlaethol Cymru rhwng 1 Awst 2020 a 31 Mawrth 2021.

2) Nodi bod y cymorth ariannol ychwanegol yn debygol o fod yn ofynnol y tu hwnt i 31 Mawrth 2021 a hyd at o leiaf 31 Gorffennaf 2021, gydag adroddiad manwl i ddilyn yn y dyfodol.

3) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol i lunio unrhyw ddogfennaeth sy'n angenrheidiol i roi unrhyw un o'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith ac i ddiogelu buddiant y cyngor.

## 23. Datganiad Argyfwng Hinsawdd - Adolygiad Polisi a'r Cynllun Gweithredu Arfaethedig.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Trawsnewid Ynni a Gwasanaethau adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd ers yr Hysbysiad o Gynnig i'r Cyngor ynghylch yr argyfwng yn yr hinsawdd ar 27 Mehefin 2019.

Gofynnodd am gael newid yr adroddiad ychydig trwy ychwanegu'r paragraff canlynol:

*"3.1.4 Mae'r adroddiad hefyd yn ymgorffori gofynion a dyheadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, er ein bod ni'n deall bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad i wella'r targedau net sero ymhellach erbyn 2050. Bydd unrhyw strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol yn cynnwys unrhyw ofynion newydd sy'n codi o'r newidiadau deddfwriaethol."*

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r cynnydd hyd yma.

2) Llofnodi'r Siarter Newid yn yr Hinsawdd.

3) Cymeradwyo'r cynllun gweithredu a nodir ym mharagraffau 3 i 6 yr adroddiad i alluogi'r awdurdod i fod yn awdurdod allyriadau di-garbon net erbyn 2030 ar gyfer ei allyriadau "o fewn ei gwmpas" ei hun.

4) Gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd yn y tymor hwy ac ymdrechu tuag at ddod yn awdurdod allyriadau di-garbon net erbyn 2050 ar gyfer Abertawe.

5) Cyflwynir adroddiad pellach yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

## 24. Strategaeth Ynni 2020-2030.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Trawsnewid Ynni a Gwasanaethau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Ynni ddiwygiedig y cyngor a'r Cynllun Rheoli Carbon cysylltiedig.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Caiff y Strategaeth Ynni a'r Cynllun Rheoli Carbon cysylltiedig eu cymeradwyo a'u rhoi ar waith.

## 25. Cytundeb Compact y Trydydd Sector - Diweddariad

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau adroddiad gwybodaeth a oedd yn rhoi'r diweddaraf am Gytundeb Compact Trydydd Sector Abertawe a'r gwaith hyd yn hyn gan Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector a ffurfiwyd fel rhan o Gytundeb Compact diwygiedig Abertawe gyda'r Sector Gwirfoddol yn 2018.

## 26. FPR7 - Rhaglen Cyfalaf y Gronfa Gofal Canolraddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Arian Cyfalaf y GGI 2020-2021 ac i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i neilltuo ac awdurdodi cynllun i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo manylion diweddaraf Arian Cyfalaf y GGI a glustnodwyd ar gyfer 2020-2021 a'r cynlluniau a'u goblygiadau ariannol fel y nodir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad a'u hychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf neu fe'u diwygir fel y’u nodir yn yr adroddiad.

## 27. Caniatâd y Rhaglen Gyfalaf i ailfodelu'r ardal llawr caled a gosod cae 3G ar dir yn Ysgol Gymunedol Dylan Thomas.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i neilltuo £204,500 i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer ailfodelu ardal llawr caled a gosod cae 3G ar y tir presennol yn Ysgol Gymunedol Dylan Thomas. Mae'r cyllid yn cynnwys:

£50,000 gan Garfield Weston.
£61,000 gan Johan Cruyff Foundation.
£25,000 gan y cyngor.
£68,500 o Gyllideb Ddirprwyedig yr Ysgol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol – neilltuo ac awdurdodi prosiect newydd i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Clustnodi £204,500 i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer ailfodelu ardal chwarae cwrt caled a gosod cae 3G yn dilyn cadarnhad o gyllid gwerth £111,000 gan Garfield Weston a Johan Cruyff Foundation.

## 28. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Brynmill | Hywel Vaughan |
| 2) | Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw | Kelly Byrne |
| 3) | Ysgol Gynradd Hendrefoelan | Aime Rushton |
| 4) | Ysgol Gynradd San Helen | Hannah Lawson |
| 5) | Ysgol Pen y Bryn | Lesley Williams |
| 6) | Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed | Joanne Hershell |
| 7) | Ysgol Tre-gŵyr | Bethina Rees-Lawrence |
| 8) | Ysgol Gyfun Pentrehafod | Margaret Hughes |
| 9) | Ysgol Gyfun Bryn Tawe | Eleni Cordingley |

## 29. Adolygiad o Brisiau Parcio Ceir Canol y Ddinas i gefnogi canol y ddinas yn ystod pandemig COVID-19.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ystyried effaith ariannol rhoi prisiau parcio gostyngol ar waith ym meysydd parcio canol y ddinas y cyngor.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo rhoi prisiau parcio diwygiedig ar waith ar gyfer y cyfnod rhwng 9 Tachwedd a 9 Rhagfyr 2020 fel y nodir yn yr adroddiad.

2) Cymeradwyo ymestyn y cyfnod prisiau parcio diwygiedig o 9 Rhagfyr 2020 i 31 Ionawr 2021.

3) Dirprwyo awdurdod i Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, y Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth Priffyrdd a Chludiant adolygu a rhoi unrhyw newidiadau pellach i brisiau parcio a phrisiau pharcio a theithio rhwng 31 Ionawr a 31 Mawrth 2021 ar waith.

## 30. Ailadeiladu Graig Road.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i glustnodi ac awdurdodi cynlluniau i'r Rhaglen Gyfalaf. Cadarnhaodd yr adroddiad hefyd gyllid ar gyfer atgyweirio Graig Road.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r cynllun arfaethedig i ailadeiladu Graig Road a'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

**31. Gwahardd y cyhoedd: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**32. Bwriad i brynu Portffolio Buddsoddi mewn Eiddo.**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau a Buddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gael gafael ar eiddo fel rhan o'r Gronfa Buddsoddi mewn Eiddo.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**33. Consesiynau Rhent Arfaethedig i gefnogi Tenantiaid Masnachol y cyngor yn ystod cyfnod atal byr COVID-19.**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau a Buddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad ar y cyd a oedd yn gofyn am roi cymorth ariannol i denantiaid masnachol y cyngor oherwydd y cyhoeddiad diweddar am 'gyfnod atal byr' COVID-19. Daw'r gefnogaeth ar ffurf consesiynau rhentu ychwanegol ac maent yn angenrheidiol i sicrhau bod tenantiaid yn goroesi, yn ogystal â lleihau'r effaith ar yr economi leol a'r perygl o golli swyddi.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.25 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 19 Tachwedd 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 24 Tachwedd 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 25 Tachwedd 2020 |